# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mai 2017

Amser: 08.30 - 08.50

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn gwneud datganiad ar rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr ddydd Mawrth (45 munud)

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 10 Mai 2017 –**

- ~~Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Y darlun mawr: Safbwyntiau cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru (60 munud)~~ – *wedi'i symud i 14 Mehefin*
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**Dydd Mercher 17 Mai 2017 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (~~12~~60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Mai 2017 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Dewisodd y Pwyllgor Busnes gynnig ar gyfer dadl ar 10 Mai.

**Dydd Mercher 10 Mai 2017 -**

**NNDM6288**
**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**
**Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)**
**Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
**Sian Gwenllian (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod plismona yn fater sydd wedi'i ddatganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

2. Yn galw am ddatganoli plismona i Gymru.

3. Yn credu ei bod yn well cydgysylltu materion plismona arbenigol, fel polisïau gwrth-frawychiaeth, ar lefel y DU.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnwys y Ddadl Aelod Unigol nesaf ar yr amserlen ar gyfer 24 Mai.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Papur i'w nodi - Amserlen ddiwygiedig ar gyfer y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgiadol (Cymru)

Nododd y Rheolwyr Busnes amserlen ddiwygiedig y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgiadol ar ôl cytuno y tu allan i'r Pwyllgor i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r adroddiad ar Gyfnod 1 o 12 Mai i 24 Mai, a'r dyddiad ar gyfer cwblhau Cyfnod 2 o 14 Gorffennaf i 21 Gorffennaf. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i gais gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i gynnal cyfarfod ychwanegol brynhawn Llun 8 Mai i ystyried y dystiolaeth a gafwyd yn ystod Cyfnod 1, a'r adroddiad drafft.

### 4.2 Papur i'w nodi – Llythyr gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ynghylch y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Carchardai a Llysoedd

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a oedd yn nodi na fydd yn adrodd ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynghylch y Bil Carchardai a Llysoedd am fod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ystyried y Bil ac yn llunio adroddiad ar gymalau 4-6: yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth; ymchwiliadau i farwolaethau mewn cartrefi diogel i blant. Nododd Jane Hutt na fyddai'r Bil hwn yn mynd ymlaen ymhellach yn San Steffan gan fod y Senedd ar fin cael ei diddymu.

## Unrhyw fater arall

Yn dilyn penderfyniad Mark Reckless i adael grŵp UKIP, rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes y bydd papur ar sut y bydd hyn yn effeithio ar y Pwyllgorau yn cael ei ddosbarthu cyn cyfarfod yr wythnos nesaf, pan fydd angen i'r Rheolwyr Busnes ystyried sut i lenwi'r swyddi gwag.